**AC-08-00(min)**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 9 Tachwedd 2000 | |
| **Amser:** | 2pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2 | |
| **Presennol** | **Aelodau** | |
| | Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Peter Law | Blaenau Gwent |
| | Dafydd Wigley | Caernarfon |
| | Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| | Gillian Body | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| | Sharon Davies | Swyddog Cydymffurfio’r Cynulliad Cenedlaethol Dros Dro |
| | Andrew George | Clerc y Pwyllgor |
| | Julie Bragg | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle ac Ann Jones.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth**
**Papurau: AC-08-00(p.1)**

1.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Trefniadau Adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru* a gyhoeddwyd ar 2

Tachwedd 2000.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Gerry Thomas | Pennaeth Adran Gwasanaethau Rheoli, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Eric McDonald | Pennaeth Adran Adeiladau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

1.2 Atodir trawsysgrif air am air o’r eitem hon fel atodiad i’r cofnodion hyn.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**Papur: AC-07-00(min)**

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

2.2 Nododd y Cadeirydd bod tri phapur i’w nodi ar gyfer y cyfarfod. Mewn perthynas ag Ymateb diwygiedig y Cabinet i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 00-05 – *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol Cyfrifon 1998-99*, cynigiodd y Cadeirydd aros am sylwadau’r Archwilydd Cyffredinol cyn ystyried y ddogfen.

2.3 Cyn hir bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi dau adroddiad. Darperir copïau o’r datganiadau priodol i’r wasg cyn cyhoeddi adroddiadau’r Pwyllgor ac adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2.4 Trafododd yr Aelodau weithredoedd y Pwyllgor a’r posibilrwydd o wahodd Gweinidogion i roi tystiolaeth. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd y Pwyllgor yn ymrwymedig i weithredu yn ôl yr un confensiynau â’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn San Steffan. Fodd bynnag, o dan y Rheolau Sefydlog nid oedd gan y Pwyllgor Archwilio y pwer i ystyried amcanion polisi’r Cynulliad a dim ond trwy Swyddog Cyfrifo’r Cynulliad neu gorff cyhoeddus a noddir y gallai archwilio gweithredu’r penderfyniadau hyn. Roedd Gweinidogion y Cynulliad yn agored i archwiliad gan Gwestiynau’r Cynulliad, pwyllgorau pwnc a gohebiaeth. Cytunwyd i ddarparu rhai enghreifftiau o Femorandwm y Swyddog Cyfrifo ar gyfer y Pwyllgor fel y gallai aelodau weld ystod y materion y gellir cwestiynu Swyddogion Cyfrifo arnynt.

2.5 Daeth y pwyllgor i ben am 5.15pm.